


A large mammoth skeleton is the central focus, displayed in a museum hall. The skeleton is illuminated with dramatic red and blue lighting, creating a high-contrast, artistic effect. The background shows the architectural details of the museum, including columns and a balcony. The overall mood is mysterious and awe-inspiring.

**AMGUEDDFA
CYMRU**

**ADOLYGIAD BLYNYDDOL
ANNUAL REVIEW
2024-25**

amgueddfa.cymru
museum.wales



Cawsom ddathliad **Dydd Gŵyl Dewi** gyda dawnsio gwerin, cerddoriaeth delyn a bwydydd a diodydd Cymreig traddodiadol.

We celebrated **St David's Day** with traditional folk dancing, harp music and classic Welsh food and drink.



Gwnaethom adleoli gwrthrychau a chasgliadau i storfa dros dro ddiogel er mwyn i'r gwaith cadwraeth ac adnewyddu yn **Amgueddfa Lechi Cymru** allu mynd ragddo.

We relocated objects and collections to a safe temporary store to allow for the conservation and renovation of the **National Slate Museum**.

MAE AMGUEDDFA CYMRU YN PERTHYN I BAWB

Mae ein Hadolygiad Blynyddol yn dathlu cyflawniadau'r flwyddyn ddiwethaf – a oedd yn bosibl diolch i ymroddiad, brwdfrydedd a chreadigrwydd ein staff, ein gwirfoddolwyr, ein partneriaid, a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Diolch o galon i bawb sydd wedi ein cefnogi ni, ymweld â'n hamgueddfeydd, ymuno â'n rhaglenni, neu gysylltu â ni ar-lein. Gyda'n gilydd, rydym wedi croesawu bron i 1.5 miliwn o bobl drwy ein drysau ac wedi cyrraedd 2.4 miliwn yn rhagor drwy ddulliau digidol, gan rannu'r straeon, y diwylliant a'r dreftadaeth sy'n ffurfio Cymru.

Rydym yn parhau i wneud gwaith hanfodol yng nghanol bywyd Cymru, gan gydweithio â chymunedau i greu projectau sy'n ein hysbrydoli, ein herio a'n cysylltu.

Gan edrych tua'r dyfodol, rydym yn paratoi ar gyfer cerrig milltir pwysig – o'r project trawsnewidiol i ailddatblygu Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis, a fydd yn sicrhau dyfodol stori fyd-eang y diwydiant llechi, i arddangosfa ryngwladol arwyddocaol Gwen John: Hardd a Hynod, a fydd yn nodi 150 mlynedd ers genedigaeth un o artistiaid mwyaf dylanwadol Cymru.

Mae'n ffrainc cael bod yn rhan o fywydau cynifer o bobl. Edrychwn ymlaen at eich croesawu chi eto yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.



Diolch yn fawr.

Jane Richardson

Prif Weithredwr / Chief Executive

AMGUEDDFA CYMRU - MUSEUM WALES BELONGS TO EVERYONE

Our Annual Review celebrates the achievements of the past year – made possible by the dedication, passion, and creativity of our staff, volunteers, partners, and the communities we serve.

Diolch o galon – a heartfelt thank you – to everyone who has supported us, visited our museums, joined our programmes, or connected with us online. Together, we've welcomed almost 1.5 million people through our doors and reached 2.4 million more digitally, sharing the stories, culture and heritage that shape Wales.

We continue to deliver vital work at the heart of Welsh life, collaborating with communities to create projects that inspire, challenge and connect us.

Looking ahead, we're preparing for some landmark moments – from the transformational redevelopment of the National Slate Museum in Llanberis, securing the future of the slate industry's global story, to our major international exhibition Gwen John: Strange Beauties, marking 150 years since the birth of one of Wales' most influential artists.

It's a privilege to be part of so many people's lives. We look forward to welcoming you again in the year ahead.

2024-2025 BLWYDDYN MEWN RHIFAU A YEAR IN NUMBERS

Diolch o galon i bawb sydd wedi ymweld â ni, wedi'n cefnogi ni, neu wedi gweithio gyda ni eleni i'n helpu i ysbrydoli pawb drwy adrodd hanes Cymru.

Diolch o galon – to everyone who's visited, supported or worked with us this year, helping us inspire everyone through Wales' story.

 **1,475,181**

Mwy nag 1.47 miliwn o ymwelwyr wedi'u croesawu i Amgueddfa Cymru.

Over 1.47 million visitors welcomed to Amgueddfa Cymru.

 **2,421,104**

Dros 2.4 miliwn o ymweliadau â'r wefan a 215,891 o ddilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol.

Over 2.4 million website visits and 215,891 social media followers.

 **34,880**

Mae 754 o wirfoddolwyr wedi rhoi 34,880 o oriau o'u hamser i Amgueddfa Cymru.

754 volunteers donated 34,880 hours of their time to Amgueddfa Cymru.

 **59%**

Mae 59% o'n gweithlu yn medru rhywfaint o Gymraeg, gan gynnwys 26% sy'n rhugl.

59% of our workforce have Welsh language skills, including 26% who are fluent.

5.3M

5.3 miliwn o wrthrychau ac atgofion yng nghasgliad cenedlaethol Cymru o gelf, hanes a gwyddoniaeth sy'n cael eu defnyddio i ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol.

5.3 million objects and memories in Wales' national collections of art, history and science used to inspire future generations.

225 

Mae pobl mewn 225 o leoliadau ar draws y byd wedi ymweld â'n gwefan.

People in 225 locations across the world have visited our website.

**19
22**

Mae eitemau o'n casgliadau wedi'u benthg i leoliadau a sefydliadau mewn 19 o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru.

Our collections have been loaned to venues and organisations in 19 of the 22 Local Authorities in Wales.

 **232,347**

232,347 o blant a phobl ifanc wedi ymwneud â'n rhaglen addysg mewn ysgolion.

232,347 children and young people engaged with our school-based learning programme.



20

20 project ymchwil ym meysydd celf, hanes a gwyddoniaeth.

20 research projects covering art, history and science.

Mae Big Pit yn un o'r amgueddfeydd mwyaf poblogaidd yn y DU gyfan (TripAdvisor), gyda bron i 90% o ddefnyddwyr yn ystyried y profiad a geir yno yn un pum seren, ac mae Ffreutur y Glowyr ar y safle yn ymddangos mewn rhestrau o'r caffis gorau mewn amgueddfeydd (The Guardian).

Big Pit is one of the best-rated museums in the whole of the UK (TripAdvisor), with nearly 90% rating it a five-star experience, and its Miners' Canteen features in the best museum cafés lists (The Guardian).

Diolch i chwaraewyr y People's Postcode Lottery a Llywodraeth Cymru am gefnogi ein gwaith craidd eleni. Hoffem ddiolch hefyd i Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, y Gronfa Gelf, Ymddiriedolaeth Elusennol Colwinston, Cyfeillion Amgueddfa Cymru, Sefydliad Hodge ac ymddiriedolaethau a sefydliadau eraill am eu haelioni wrth gefnogi ein projectau strategol. Rydyn ni hefyd yn ddiolchgar iawn i Sefydliad Paul Hamlyn am barhau i gefnogi ein gwaith addysg ac ymgysylltu. Diolch i'n haelodau, noddwyr, rhoddwyr unigol a busnesau corfforaethol am eu cefnogaeth, ac i bawb sydd wedi cyfrannu, a gwario yn ein caffis, siopau, arddangosfeydd a phrofiadau – mae eich cyfraniadau yn helpu i sicrhau bod Amgueddfa Cymru yn perthyn i bawb ac yma at ddefnydd pawb.

Diolch to the players of the People's Postcode Lottery and the Welsh Government for supporting our core work this year. We would also like to thank National Lottery Heritage Fund, National Lottery Community Fund, Art Fund, Colwinston Charitable Trust, The Friends of Amgueddfa Cymru, Hodge Foundation and other trusts and foundations for their generosity in supporting our strategic projects. We are also grateful for the ongoing support of the Paul Hamlyn Foundation towards our learning and engagement work. Diolch to our members, patrons, individual donors and corporate businesses for their support, and to everyone who donated, purchased in our cafés, shops, exhibitions and experiences – your contributions help ensure that Amgueddfa Cymru belongs to everyone and is here for everyone to enjoy.

 **376**

Mae 376 o aelodau o'n staff wedi cwblhau'n hyfforddiant llythrennedd carbon dwyieithog hyd yn hyn.

376 staff have completed our bilingual carbon literacy training so far.



ARIAN SILVER

Sefydliad carbon llythrennog ag achrediad Arian sydd wrthi'n gweithio tuag at achrediad Aur.

Silver accredited carbon literate organisation and proactively working towards Gold.




Statws arian Buddsoddwyr mewn Pobl.

Silver Investors in People status.



Mae Sain Ffagan yn un o'r amgueddfeydd byw trochol gorau yn y DU (TimeOut).

St Fagans is one of the best immersive living museums in the UK (TimeOut).



Wrth i **Amgueddfa Lechi Cymru** gael ei hailddatblygu, mae ein menter *Amgueddfa ar y Lôn* yn mynd â'n pobl, ein casgliadau a'n straeon allan ar daith — gan gynnwys arddangosiadau hollti llechi byw gan ein chwarelwyr yng Nghastell Penrhyn.

As the **National Slate Museum** redevelops, our *Museum on the Move* initiative takes our people, collections and stories on the road — including live slate-splitting demonstrations by our quarrymen at Penrhyn Castle.



Mae ein **Canolfan Gasgliadau Genedlaethol** yn gartref i filoedd o wrthrychau rhyfeddol — o ffotograffau hanesyddol i fysiau, ceir a hyd yn oed hofrennydd achub ar y môr — sydd i gyd yn cael gofal arbenigol gan ein cadwraethwyr a'n peirianwyr.

Our **National Collection Centre** houses thousands of remarkable objects — from historic photographs to buses, cars and even an air-sea rescue helicopter — all expertly cared for by our conservators and engineers.

Elusen yw Amgueddfa Cymru, a theulu o saith amgueddfa genedlaethol a chanolfan gasgliadau sydd wedi'u lleoli ledled Cymru.

Diolch i gymorth gan Lywodraeth Cymru, mae mynediad am ddim — ac rydym yn croesawu pawb.


Ond rydym yn fwy na dim ond ein hadeiladau. Mae ein hamgueddfeydd yn rhan o wead cymunedau, gan gynnig lleoedd i gysylltu, dysgu a chael ysbrydoliaeth — ni waeth o ble y byddwch yn ymuno â ni.

Amgueddfa Cymru is a charity, a family of seven national museums and a collections centre located across Wales.

Thanks to Welsh Government support, entry is free — and our welcome is open to everyone.

But we're more than just our buildings. Our museums are part of the fabric of communities, offering spaces to connect, learn and be inspired — wherever you're joining us from.

- 1 **Amgueddfa Lechi Cymru**
National Slate Museum
- 2 **Amgueddfa Wlân Cymru**
National Wool Museum
- 3 **Amgueddfa Genedlaethol y Glannau**
National Waterfront Museum
- 4 **Y Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol**
National Collections Centre
- 5 **Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru**
St Fagans National Museum of History
- 6 **Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd**
National Museum Cardiff
- 7 **Amgueddfa Llang Rufeinig Cymru**
National Roman Legion Museum
- 8 **Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru**
Big Pit National Coal Museum



I helpu i gynllunio'ch ymweliad, ewch i **amgueddfa.cymru**

Dilynwch ni @AmgueddfaCymru



To help plan your visit, go to **museum.wales**

Follow us @MuseumWales



Ar ôl hir aros, gwnaethom agor Gwesty'r Vulcan yn **Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru** — sydd wedi'i hadfer i'r ffordd roedd yn edrych yn 1915.

We opened the much-anticipated Vulcan Hotel at **St Fagans National Museum of History** — restored to its 1915 appearance.



Ymwelwyr yn mwynhau sesiwn iechyd a lles yn **Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru** fel rhan o broiect *Amgueddfeydd yn Ysbrydoli Atgofion*, sy'n cefnogi pobl y mae dementia yn effeithio arnynt mewn partneriaeth â Chymdeithas Alzheimer's Cymru.

Visitors enjoy a health and wellbeing session at **Big Pit National Coal Museum** as part of *Museums Inspiring Memories*, a project supporting people affected by dementia in partnership with Alzheimer's Society Cymru.

Amgueddfa Cymru i bawb...

Credwn y dylai gwybodaeth ac addysg fod yn hygyrch i bawb. Yr egwyddor hon sy'n llywio'r ffordd rydym yn gofalu am ein casgliadau ac yn creu profiadau cynhwysol a llawn ysbrydoliaeth sy'n ennyn diddordeb pobl ledled Cymru.

Ar y tudalennau nesaf, byddwch yn gweld sut rydym yn dod â Strategaeth 2030 yn fyw. Drwy ein casgliadau, ein rhaglenni cyhoeddus a'n partneriaethau, rydym yn cydweithio â chymunedau ledled Cymru i wneud y canlynol:

-  Cynrychioli pawb
-  Ysbrydoli creadigrwydd a dysgu am oes
-  Diogelu ac adfer natur a'r amgylchedd
-  Cefnogi lles trwy lefydd a phrofiadau sy'n ysbrydoli
-  Darganfod yr amgueddfa yn ddigidol
-  Creu cysylltiadau ar draws y byd

Mae ein nod yn glir: bod yn lle i bawb, nawr ac am genedlaethau i ddod. Mae'r projectau rydym yn eu cynnal a'r partneriaethau rydym yn eu meithrin yn adlewyrchu'r ymrwymiad hirdymor hwn.

Drwy weithio gyda sefydliadau eraill, rydym yn ymestyn ein cyrhaeddiad ac yn gwella ein harlwy. Rydym yn gwneud ymdrech fwriadol i gynnwys cymunedau wrth rannu eu straeon, gan ddiogelu'r gorffennol er mwyn ysbrydoli dyfodol gwell.

I gyflawni hyn, rydym yn cefnogi ein staff, yn gofalu am gasgliadau'r genedl, yn ymateb i heriau, ac yn cynnal cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein holl waith.

Amgueddfa Cymru for all...

We believe that knowledge and learning should be accessible to everyone. This principle shapes how we care for our collections and create inclusive, inspiring experiences that engage people across Wales.

In the pages ahead, you'll see how we are bringing Strategy 2030 to life. Through our collections, public programmes, and partnerships, we collaborate with communities across Wales to:

-  Make sure everyone is represented
-  Inspire creativity and learning for life
-  Help protect and restore nature and our environment
-  Support well-being through inspiring spaces and experiences
-  Discover and explore the museum digitally
-  Build global connections

Our aim is clear: to be a place for everyone, now and for generations to come. The projects we deliver and partnerships we nurture reflect this long-term commitment.

By working with other organisations, we extend our reach and enhance our offer. We actively involve communities in sharing their stories, preserving the past to inspire a better future.

To achieve this, we support our staff, care for the nation's collections, respond to challenges, and uphold equality and diversity throughout our work.



Mewn partneriaeth ag Addysg Oedolion Cymru a Choleg Caerdydd a'r Fro, rydym yn datblygu adnoddau dysgu Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) sy'n helpu ffoaduriaid a cheiswyr lloches i archwilio ein hamgueddfeydd a'n horielau gan feithrin sgiliau iaith Saesneg ar yr un pryd.

In partnership with Adult Learning Cymru and Cardiff and Vale College, we develop ESOL learning resources that help refugees and asylum seekers explore our museums and galleries while building English language skills.



Cafwyd diwrnod yn llawn dop o gerddoriaeth, perfformiadau a chrefftau i ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd yn **Amgueddfa Genedlaethol y Glannau**, mewn partneriaeth â Chymdeithas y Tsieineaidd yng Nghymru.

A day bursting with music, performances and crafts marked our Chinese New Year celebrations at **National Waterfront Museum**, delivered in partnership with the Chinese in Wales Association.

LLE I BAWB

Mae gweithio gyda chymunedau yn ein helpu i ailddychmygu'r amgueddfa fel man lle y gall pawb fyfyrto, gwrando, a pherthyn.

Eleni, mae partneriaethau cadarn wedi llywio'r ffordd yr awn ati i adrodd straeon mwy cynhwysol yn ein holl amgueddfeydd. Drwy Safbwynt(iau), a gefnogir gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru, gwnaethom greu ymyriadau ar y cyd ag artistiaid er mwyn cyflwyno dehongliadau didwyll yn ein gofodau. Gwnaeth projectau dan arweiniad y gymuned fel Newid Byd, a ddatblygwyd ar y cyd ag Innovate Trust a purpleSTARS, rymuso unigolion ag anableddau dysgu i lywio profiadau mewn amgueddfeydd. Gwnaethom hefyd gydweithio â grwpiau ledled cymoedd y De i gydgaradu arddangosfeydd Streic! 84-85 a'r Cymoedd.

Mae rhaglennu cynhwysol wedi parhau i fod wrth wraidd ein gwaith. Gwnaethom lansio Hanes Pobl Dduon 365 yn Sain Ffagan, agor Cymru... Balchder, sef ein harddangosfa LHDTIC+ barhaol gyntaf, a pharhau i wreiddio ein trydedd iaith, sef iaith Arwyddion Prydain (BSL), yn ein ffordd o weithio.

Gwnaethom atgyfnerthu ein presenoldeb mewn digwyddiadau fel Pride Cymru, Eisteddfod yr Urdd, a Sioe Frenhinol Cymru, cynnal gweithdai ar thema Rufeinig yng Ngŵyl Grefft Cymru yn Aberteifi, a chroesawu teuluoedd i weithgareddau crefft yn Amgueddfa Wlân Cymru – gan ddathlu gwybodaeth, cydberthynas a llawenydd.

FOR EVERYONE



Working with communities helps us reimagine the museum as a space where everyone can reflect, listen, and belong.

This year, strong partnerships have shaped how we tell more inclusive stories across our museums. Through Perspective(s), supported by Arts Council of Wales and the Welsh Government, we co-created interventions with artists to bring authentic interpretations into our spaces. Community-led projects like Newid Byd / Something New, developed with Innovate Trust and purpleSTARS, empowered individuals with learning disabilities in shaping museum experiences. We also collaborated with groups across the south Wales valleys to co-curate Streic! 84–85 Strike! and The Valleys exhibitions.

Inclusive programming remained at the heart of our work. We launched Black History 365 at St Fagans, opened Wales is... Proud, our first permanent LGBTQ+ display, and continued to embed our third language British Sign Language into the way we work.

We deepened our presence at events like Pride Cymru, the Urdd Eisteddfod, and the Royal Welsh Show, delivered Roman-themed workshops at Cardigan's Craft Festival Wales, and welcomed families to craft activities at the National Wool Museum – celebrating knowledge, togetherness and joy.



Yn ystod Wythnos Gwirfoddolwyr, gwnaethom ddathlu cyfraniad anhygoel ein 754 o wirfoddolwyr, a roddodd 34,880 o oriau o'u hamser i gefnogi ein gwaith. Diolch yn fawr iawn!

During Volunteers' Week, we celebrated the incredible contribution of our 754 volunteers, who donated 34,880 hours of their time to support our work. A huge diolch yn fawr!



Rydym yn cynnig adnoddau synhwyraidd — gan gynnwys pecynnau synhwyraidd a chlustffonau canslo sŵn — er mwyn helpu'r holl ddysgwyr i fwynhau ein hamgueddfeydd wrth eu pwysau eu hunain.

We offer sensory-friendly resources — including sensory backpacks and noise-cancelling headphones — to help all learners enjoy our museums at their own pace.

DYSGU A CHREU

Rydym wedi parhau i ysbrydoli dysgwyr o bob oed drwy brofiadau ymarferol, creadigol a chynhwysol yn ein holl amgueddfeydd.

Rydym wedi cydweithio'n agos â phartneriaid gwyb fel Dechrau'n Deg, Tŷ Hafan, Cyngor Ffoaduriaid Cymru a Mudiad Meithrin i gynnal sesiynau blynyddoedd cynnar, gweithdai i deuluoedd, a gweithgareddau sy'n pontio'r cenedlaethau. Mae Rhyfeddodau Bach, sef ein rhaglen blynyddoedd cynnar a gefnogir gan y Gronfa Gelf a Nesta, bellach ar ei hanterth gyda'r ail grŵp o deuluoedd yn archwilio cyfleoedd chwaraus i ddysgu mewn amgueddfeydd gyda'i gilydd.

Mae ein harlwy digidol yn parhau i dyfu. Cymerodd dysgwyr o bob cwr o Gymru ran yn Ehangu Gorwelion, sef ein rhaglen ar-lein pedair wythnos o hyd a ddatblygwyd mewn partneriaeth ag E-sgol, gan helpu i gysylltu ysgolion â chasgliadau'r Amgueddfa mewn ffyrdd newydd a chreadigol. Gwnaethom hefyd lansio adnoddau dysgu newydd, gan gynnwys canllaw i ysgolion sy'n ymweld â Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru.

Rydym wedi rhoi llawer o bwyslais ar sgiliau eleni, gyda Phrentisiaid Crefft Mwyngloddio yn dod yn Dywyswyr Dan Ddaear yn Big Pit, a lleoliadau mecaneg a gwaith gof yn Amgueddfa Lechi Cymru. Hefyd, croesawodd Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd bedwar Lleoliad Datblygu Sgiliau. Ac i'n gwirfoddolwyr anhygoel, y mae eu hamser a'u brwdfrydedd — boed mewn clybiau crefft, yn ein gerddi neu yn ein horielau — yn dal yn hanfodol i bopeth a wnawn: diolch!



LEARN AND CREATE

We've continued to inspire learners of all ages through hands-on, creative, and inclusive experiences across all our museums.

We've worked closely with brilliant partners like Flying Start, Tŷ Hafan, the Welsh Refugee Council and Mudiad Meithrin to run early years sessions, family workshops, and intergenerational activities. Mini Wonders, our early years programme supported by Art Fund and Nesta, is now in full swing with its second group of families exploring playful, museum-based learning together.


Our digital learning offer continues to grow. Learners from across Wales took part in Expanding Horizons, our four-week online programme developed in partnership with E-sgol, helping to connect schools with museum collections in new and creative ways. We also launched new learning resources, including a guide for schools visiting Big Pit National Coal Museum.

We've placed a strong focus on skills this year, with Mining Craft Apprentices becoming Underground Guides at Big Pit, and placements in mechanics and blacksmithing at the National Slate Museum. National Museum Cardiff also welcomed four Skills Development Placements. And to our incredible volunteers, whose time and passion — whether in craft clubs, our gardens or galleries — remain essential to everything we do. Diolch!



Bob dydd Gwener, bydd ein gardd GRAFT arobryn yn **Amgueddfa Genedlaethol y Glannau** yn croesawu aelodau o'r gymuned i ddysgu sgiliau sy'n amrywio o arddio a choginio i gadw gwenyn, gwaith coed a chrefftau.

Every Friday, our award-winning GRAFT garden at **National Waterfront Museum** welcomes community participants to learn skills from gardening and cooking to beekeeping, woodwork and crafts.



Gwnaeth ein digwyddiad Dathlu Natur yn **Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru** wahodd dysgwyr i archwilio byd planhigion, chwilod a phob math o bryfed, ochr yn ochr â gwyddonwyr ein hamgueddfeydd.

Our Celebration of Nature event at **St Fagans National Museum of History** invited learners to explore the world of plants, bugs and all things creepy-crawly alongside our museum scientists.

BLAENORIAETHU'R BLANED

Rydym yn gweithio'n galed i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd a gofalu am fyd natur – o'r ffordd rydym yn pweru ein hamgueddfeydd i'r ffordd rydym yn defnyddio ein mannau awyr agored.

Eleni, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran bod yn sefydliad mwy gwyrdd drwy leihau ein dibyniaeth ar danwyddau ffosil a gwella effeithlonrwydd ynni yn ein holl amgueddfeydd. Rydym hefyd yn falch o barhau i wella'r ffordd rydym yn ailgylchu ac yn lleihau gwastraff bob dydd.

Mae ein gerddi a'n mannau gwyrdd yn llawn bywyd gwyllt. Yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, mae gwaith plannu blodau gwyllt newydd yn bywiogi'r dirwedd drefol ac yn creu cynefinoedd ar gyfer peillwyr ac, yn Sain Ffagan, rydym yn adfer gweirgloddiau traddodiadol er mwyn cynnal bywyd gwyllt brodorol a rhannu arferion rheoli tir cynaliadwy ag ymwelwyr.

Hefyd, mae Llwybr Dôl newydd yn Amgueddfa Wlân Cymru yn annog pobl i archwilio byd natur ar eu stepen drws. Yn Abertawe, mae ein gardd GRAFT yn dod â phobl ynghyd i dyfu, coginio, a gofalu am wenydd – gyda mêl cartref blasus bellach ar werth yn ein siopau.

Rydym hefyd yn dysgu mwy am y blaned drwy waith ymchwil cydweithredol, gyda myfyrwyr PhD a phartneriaid academiaidd yn ein helpu i rannu gwybodaeth hanfodol am yr hinsawdd drwy arddangosfeydd, digwyddiadau a mwy.

PUT THE PLANET FIRST



We're working hard to reduce our environmental impact and care for the natural world – from how we power our museums to how we use our outdoor spaces.

This year, we've taken big steps forward in becoming a greener organisation by cutting our reliance on fossil fuels and increasing energy efficiency across our museums. We're also proud to continue improving how we recycle and reduce waste every day.

Our gardens and green spaces are buzzing with life. At National Museum Cardiff, new wildflower planting is brightening the urban landscape and creating habitats for pollinators, while at St Fagans, we're restoring traditional hay meadows to support native wildlife and share sustainable land management practices with visitors.

A new Meadow Trail at the National Wool Museum is also encouraging people to explore the nature on their doorstep. In Swansea, our GRAFT garden brings people together to grow, cook, and care for bees – with delicious, home-produced honey now on sale in our shops.

We're also learning more about the planet through collaborative research, with PhD students and academic partners helping us share vital climate knowledge through exhibitions, events and beyond.



Ymwelwyr yn mynegi eu creadigrwydd yn un o'n digwyddiadau paentio ar y cyd poblogaidd, wedi'u hysbrydoli gan ein casgliad cenedlaethol yn **Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd**.

Visitors channel their creativity in one of our popular paint-along events, inspired by our national collection at **National Museum Cardiff**.

“

“Rwyf wir wedi trysori pob eiliad a dreuliais yn yr oriel gelf, yn cwrdd â phobl o bob oed, gan gynnwys plant ac oedolion ifanc, ac yn rhannu fy ngwybodaeth a'm brwdfrydedd tuag at yr Amgueddfa. Mae wedi bod yn brofiad llawn boddhad.”

Gwirfoddolwr Archwilio yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

“I have truly cherished every moment spent in the art gallery, meeting people of all ages, including children and young adults, and sharing my knowledge and passion for the Museum. It has been a rewarding experience.”

Explore Volunteer at National Museum Cardiff

“

“Drwy wirfoddoli, fe ddysgais gymaint am hanes yr ardal leol, ac effaith y chwarel ar fywydau pobl y Gogledd heddiw. Mae hynny wedi fy ysbrydoli i chwarae fy rhan er mwyn helpu i ddiogelu a rhannu hanes Cymru, ac rwyf wedi cael cyfle i wneud hynny drwy fy swydd newydd yn Storiol.”

Gwirfoddolwr Crefft yn Amgueddfa Lechi Cymru

“Through my volunteering I learned so much about the history of the local area, and the impact of the quarry on the lives of the people of north Wales today. That knowledge inspired me to do my part in preserving and sharing the history of Wales, and I have had the opportunity to do that through my new job at Storiol.”

Craft Volunteer at the National Slate Museum

EICH STORI CHI YW EIN STORI NI. WE CAN'T TELL WALES' STORY WITHOUT YOU.

“

“Roedd y lluniau a'r fideos yn cyfleu'r streic yn berffaith ac yn gwneud i mi deimlo'n falch o'r hyn y gwnaethon ni godi ein llais drosto, yn falch o'n hamgueddfa genedlaethol am drefnu'r digwyddiad, ac yn falch o Gymru.

Nid yn unig y rhoddodd y staff groeso cynnes i mi, ond roedden nhw hefyd yn barod iawn i helpu ac yn gyfeillgar ac yn broffesiynol iawn. Pob clod i Amgueddfa Cymru.”

Rhywun a ddaeth i ddigwyddiad agoriadol
STREIC! 84-85

“The photos and videos captured the strike perfectly and made me feel proud of what we stood up to, proud of our national museum for putting the event together, and proud of Wales.

Not only did the staff make me feel very welcome, but they were also very helpful, friendly and professional. National Museum of Wales, take a bow.”

Attendee, **STREIC! 84-85 STRIKE!**
opening event

“

“Ar ran aelodau Urdd Trefoil Caerfyrddin, fe hoffwn i ddiolch i bob aelod o staff a roddodd groeso mor gynnes i ni ddoe. Fe wnaeth y cyflwyniad, wedyn cwrdd â'r nyddwyr, gweld y gwŷdd ar waith a chlywed gan y gŵr ifanc gwybodus iawn a oedd yn ei weithredu, dysgu am fywydau'r pentrefwyr a oedd yn galed iawn gan amlaf, a mwynhau ein hymweliad â'r caffi, i gyd ychwanegu at ymweliad cofiadwy a llawn gwybodaeth. Fe fyddaf yn fy ôl cyn bo hir gan fod llawer i'w weld o hyd.”

Ymweliad grŵp o'r gymuned leol ag
Amgueddfa Wlân Cymru

“On behalf of the members of Carmarthen Trefoil Guild I want to say thanks you to all staff who made us so welcome yesterday. The introduction, then meeting the spinners, seeing the loom working and hearing from the very knowledgeable young man operating it, learning about the mostly very hard lives of the villagers, and enjoying our visit to the café all added to a memorable and very informative visit. I shall be back soon as there is still a lot to see.”

Local Community group visit to National Wool Museum



Rhoddodd ein cyrsiau Cyflwyniad i Nyddu hynod boblogaidd yn **Amgueddfa Wlân Cymru** gyfle i bobl greu eu clustogau gwlân eu hunain â llaw.

Our much-loved Introduction to Spinning courses at the **National Wool Museum** gave participants the chance to create their own hand-crafted woollen cushions.



O gwrdd â'r gof yn **Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru** i archwilio bywyd yng nghyfnod y Rhufeiniaid yn **Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru**, mae ein teithiau sain ddisgrifiad yn agor ein hamgueddfeydd a'n horielau i ymwelwyr ag amhariad ar y golwg.

From meeting the Blacksmith at **St Fagans National Museum of History** to exploring Roman life at the **National Roman Legion Museum**, our audio-described tours open up our museums and galleries to visually impaired visitors.

CEFNOGI LLES

Rydym yn llywio ein hamgueddfeydd a'n rhaglenni i gynnig gofodau mwy cynhwysol a chefnogol sy'n gwella lles pawb.

Yn Amgueddfa Lechi Cymru, mae cynlluniau cyffrous ar y gweill i drawsnewid yr amgueddfa yn borth bywiog i Safle Treftadaeth y Byd UNESCO Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru. Ym mis Tachwedd, cynhaliwyd digwyddiad Hwyl Fawr... Am y Tro er mwyn dod â lleisiau ac atgofion lleol ynghyd cyn i'r ailddatblygu ddechrau.

Yn Amgueddfa Wlân Cymru, mae'r Sied Wehyddu sydd wedi cael ei hadfer yn hyfryd bellach yn cynhyrchu ac yn gwerthu ein hystof gwlanen Cymreig ein hunain – gan ddod ag ymwelwyr yn nes at sgiliau traddodiadol a chefnogi crefft leol. Ac, yn un o ddigwyddiadau mwyaf hirddisgwyliedig y flwyddyn, agorodd Gwesty'r Vulcan yn Sain Ffagan. Mae'r dafarn, a gafodd ei hadfer â gofal i'r ffordd roedd yn edrych yn 1915, eisoes yn ferw gan straeon, chwerthin a rhannu hanes.

Mae ein projectau'n parhau i sicrhau bod lles wrth wraidd yr hyn a wnawn – o sesiynau caffi cof a gweithdai creadigol drwy Amgueddfeydd yn Ysbrydoli Atgofion, i weithgareddau celf sy'n pontio'r cenedlaethau ym Mlaenafon gyda Grŵp GLO.

SUPPORT WELL-BEING



We're shaping our museums and programmes to offer more inclusive, supportive spaces that enhance well-being for all.

At the National Slate Museum, exciting plans are progressing to transform the museum into a vibrant gateway to the UNESCO World Heritage Slate Landscape of Northwest Wales. In November, Farewell... For Now brought together local voices and memories before the redevelopment begins.


At the National Wool Museum, the beautifully restored Weaving Shed is now producing and selling our own Welsh flannel warp - bringing visitors closer to traditional skills and supporting local craft. And in one of our most anticipated moments of the year, The Vulcan Hotel opened at St Fagans. Lovingly restored to its 1915 appearance, the pub is already buzzing with stories, laughter and shared history.

Our projects continue to place well-being at the heart of what we do – from memory café sessions and creative workshops through Museums Inspiring Memories, to intergenerational artmaking in Blaenavon with Grŵp GLO.



Mae project cydweithredol rhyngwladol â sefydliadau yn Singapore yn galluogi ein tîm Gwyddorau Naturiol i ddigideiddio casgliad eiconig Melvill-Tomlin o gregyn o Singapore, gan ei wneud yn hygyrch ledled y byd drwy wefan SIGNIFY.

An international collaboration with Singapore institutions enables our Natural Sciences team to digitise the iconic Melvill-Tomlin collection of Singapore shells, making it accessible worldwide via the SIGNIFY website.



Tynnodd ein ffotograffydd luniau godidog o'n casgliadau cerameg fel rhan o broiect CELF: yr oriel gelf gyfoes genedlaethol i Gymru.

Our photographer captured stunning images of our ceramics collections as part of CELF: the national contemporary art gallery for Wales initiative.

CREU PROFIADAU DIGIDOL

Rydym yn defnyddio arloesedd digidol i ddatgloi ffyrdd newydd o brofi ein casgliadau, ein harddangosfeydd a'n straeon – unrhyw bryd, yn unrhyw le.

Mae miloedd o ddarnau o waith celf bellach ar gael i'w harchwilio drwy Celf ar y Cyd, sef ein llwyfan digidol dynamig a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru. Mae'r wefan yn tyfu'n gyson, ac yn cael ei chyfoethogi gan gyfweiliadau ag artistiaid, cynnwys sain ac adnoddau creadigol sy'n helpu i ddod â chelf o Gymru yn fyw.

Rydym hefyd wedi gwella'r ffordd y bydd ymwelwyr yn ymgysylltu â ni ar-lein. Mae ein tudalennau Digwyddiadau ar eu newydd wedd yn ei gwneud hi'n haws nag erioed i chi gynllunio eich ymweliad, gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am docynnau ar gael mewn amser real a dyluniad hawdd ei ddefnyddio.

Ac rydym yn croesawu technoleg drochol er mwyn adrodd straeon mewn dimensiynau newydd. Yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, mae realiti estynedig yn dod â'r Mammoth rhyfeddol yn ein prif neuadd yn fyw, gan ail-greu cyfnod pan oedd y cewri hyn yn crwydro Cymru. Yn Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, mae ap TellMe yn treialu profiad realiti rhithwir sy'n gwahodd ymwelwyr i gamu i'r gorffennol.

O fodelau 3D i straeon digidol, rydym yn creu profiadau bythgofiadwy o fewn muriau'r amgueddfa a thu hwnt.

CREATE DIGITAL EXPERIENCES



We're using digital innovation to unlock new ways of experiencing our collections, exhibitions and stories – anytime, anywhere.

Thousands of artworks are now available to explore through Celf ar y Cyd, our dynamic digital platform developed in partnership with the National Library of Wales and Arts Council Wales. The site is constantly growing, enriched with artist interviews, audio content and creative tools that help bring Welsh art to life.

We've also improved how visitors engage with us online. Our refreshed What's On pages make it easier than ever to plan your visit, with real-time ticket updates and a user-friendly design.


And we're embracing immersive tech to tell stories in new dimensions. At National Museum Cardiff, augmented reality brings the awe-inspiring Mammoth in our main hall to life, recreating a time when these giants roamed Wales. At the National Roman Legion Museum, the TellMe app is piloting a virtual reality experience that invites visitors to step into the past.

From 3D models to digital storytelling, we're building unforgettable experiences in and beyond museum walls.



Ein cadwraethwyr yn paratoi'r arddangosfa fawr gyntaf ers mwy na deugain mlynedd sy'n canolbwyntio ar yr artist arloesol o Gymru, Gwen John. Bydd Gwen John: Hardd a Hynod yn agor yn **Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd** ym mis Chwefror 2026.

Our conservators prepare the first major exhibition in over forty years dedicated to trailblazing Welsh artist Gwen John. Gwen John: Strange Beauties opens at **National Museum Cardiff** in February 2026.



Gyda chymorth Eiriolwyr Cymunedol Caerllion, rydym yn gweithio gyda Cadw a Chyngor Dinas Casnewydd i ailddychmygu'r ffordd y bydd ymwelwyr yn profi treftadaeth Rufeinig gyfoethog Caerllion.

With the support of Caerleon Community Advocates, we are working with Cadw and Newport City Council to reimagine how visitors experience Caerleon's rich Roman heritage.

AR DRAWS Y BYD

O arddangosfeydd arwyddocaol i ymddangosiadau ar y sgrin fawr, mae ein hamgueddfeydd yn cysylltu Cymru â'r byd mewn ffyrdd newydd cyffrous.

Daeth Drych ar yr Hunlun â Portrait of the Artist (1887) Vincent Van Gogh i Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd – y tro cyntaf erioed i hunanbortread gan yr arlunydd gael ei arddangos yng Nghymru. Rhoddodd y bartneriaeth ryngwladol hon â Musée d'Orsay, Paris, gyfle i filoedd o bobl gael golwg agos ar gampwaith byd-enwog. Gwnaethom hefyd adnewyddu ein cysylltiadau â Japan cyn blwyddyn Cymru a Japan 2025, gan atgyfnerthu ein perthynas ag Amgueddfa Gelf Lywyddiaethol Oita.

Mae diddordeb byd-eang yn ein hamgueddfeydd yn parhau i dyfu. Gwnaethom groesawu dirprwyaethau diwylliannol o Québec a Fflandrys, ac ymwelwyr o wledydd mor bell i ffwrdd â Gwlad Thai, Awstralia a'r Unol Daleithiau.

Mae ein safleoedd hefyd wedi serennu ar y sgrin. Cafodd safle Sain Ffagan ei ddefnyddio fel lleoliad ar gyfer ffilmio Mr Burton a Death Valley – gan arddangos ein hamgueddfeydd i gynulleidfa ym mhedwar ban byd. Cadwch eich llygaid ar agor i weld mwy o'n hamgueddfeydd yn ymddangos ar eich sgriniau yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.




ACROSS THE WORLD

From blockbuster exhibitions to big-screen moments, our museums are connecting Wales to the world in exciting new ways.

Art of the Selfie brought Vincent Van Gogh's Portrait of the Artist (1887) to National Museum Cardiff – the first time a self-portrait by the artist had ever been displayed in Wales. This international partnership with Musée d'Orsay, Paris, gave thousands the chance to experience a global masterpiece up close. We also renewed ties with Japan ahead of Wales in Japan 2025, strengthening our relationship with Oita Prefecture Museum of Art.

Global interest in our museums continues to grow. We welcomed cultural delegations from Quebec and Flanders, and visitors from as far as Thailand, Australia and the United States.

Our sites have also played starring roles on screen. St Fagans hosted filming for Mr Burton and Death Valley – showcasing our museums to audiences around the globe. Keep your eyes peeled for more of our museums appearing on your screens in the coming year.



Derbyniodd ein tîm Archaeoleg fodrwy fylchgron a darn o grib o Ganol yr Oes Efydd i'r casgliad, ar ôl iddynt gael eu darganfod yn ystod cloddiadau yng nghymuned Sain Nicolas a Thresimwn.

Our Archaeology team accessioned a Middle Bronze Age penannular ring and comb fragment discovered during excavations in St Nicholas and Bonvilston Community.



Mae ein siop ar ei newydd wedd yn **Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru** yn gwerthu dros 200 o gynhyrchion newydd ac unigryw a ysbrydolwyd gan ein casgliadau, ein straeon a'n hymwelwyr.

Our refurbished shop at **Big Pit National Coal Museum** features over 200 new and bespoke products inspired by our collections, stories and visitors.

CYFLAWNI EIN GWAITH

Y tu ôl i'r llenni, rydym yn gweithio'n ddiflino i sicrhau bod ein hamgueddfeydd yn lleoedd diogel, croesawgar a pherthnasol i bobl Cymru.

Eleni, gwnaethom ail-lunio ein gwasanaethau arlwyio a manwerthu drwy eu gwneud yn wasanaethau mewnol, gan ein galluogi i wella ansawdd a chynnig profiad ymwelwyr wedi'i deilwra'n fwy ar bob un o'n safleoedd.

Mae ein proffil ymchwil yn parhau i dyfu, wrth i ail garfan ymuno â'n cynllun Cymrodry Ymchwil Anrhydeddus sy'n ehangu. Ochr yn ochr â churaduron a myfyrwyr PhD, mae ein Cymrodry wrthi'n cyhoeddi a chydweithio ar projectau arwyddocaol a cheisiadau am gyllid gyda Phrifysgol Caerdydd a sefydliadau blaenllaw eraill yn y DU, gan ddyfnhau ein gwybodaeth a'n heffaith.

Rydym hefyd yn ymrwymedig i hyrwyddo'r Gymraeg, gan greu adnoddau dysgu dwyieithog ar gyfer ysgolion a chefnogi ein staff drwy gynnig cyfleoedd arbennig iddynt ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a BSL.

O wella gwasanaethau i arloesi ym meysydd ymchwil a hygyrchedd, rydym yn parhau i fod yn ymroddedig i wasanaethu Cymru heddiw ac am genedlaethau i ddod.

DELIVERING OUR WORK

Behind the scenes, we work tirelessly to keep our museums safe, welcoming, and relevant to the people of Wales.

This year, we reshaped our catering and retail services by bringing them in-house, allowing us to enhance quality and deliver a more personalised visitor experience across our sites.

Our research profile continues to grow, with a second cohort joining our expanding Honorary Research Fellow scheme. Alongside curators and PhD students, our fellows are actively publishing and collaborating on significant projects and funding bids with Cardiff University and other leading UK institutions, deepening our knowledge and impact.

We're also committed to championing the Welsh language, creating bilingual learning resources for schools and supporting our staff with dedicated opportunities to develop their Welsh and BSL skills.

From improving services to pioneering research and accessibility, we remain dedicated to serving Wales today and for future generations.



Roedd ein siop symudol yn barod i groesawu ymwelwyr yn yr **Eisteddfod Genedlaethol** ym Mhontypridd.

Our mobile shop was ready to welcome visitors at the **National Eisteddfod** in Pontypridd.

Eich Digwyddiad Chi, Eich Amgueddfa Chi — cysylltwch â'n tîm Llogi Lleoliadau er mwyn cynnal eich achlysur nesaf yn un o'n lleoliadau hynod ni.

Your Event, Your Museum — contact our Venue Hire team to host your next occasion in one of our extraordinary venues.

CEFNOGWCH NI

Helpwch ni i rannu stori gyfoethog ac amrywiol Cymru â phawb.

Gan mai elusen ydym ni, mae pob rhodd, waeth beth fo'i maint, yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod Amgueddfa Cymru yn perthyn i bawb ac yn parhau i fod ar agor ac yn groesawgar i bob cymuned.

Yn ogystal â'ch haelioni chi, rydym yn ddiolchgar am gymorth sylweddol gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid eraill. Mae'r cyllid hwn yn ein galluogi i gyflawni projectau uchelgeisiol, ehangu casgliad y genedl drwy gaffael eitemau newydd pwysig, a sicrhau y bydd ein hamgueddfeydd yn parhau i fod ar agor, yn ddiogel, ac yn addas i'r diben.

Gyda chymorth parhaus, gallwn gyflawni mentrau mawr fel y project trawsnewidiol i ailddatblygu Amgueddfa Lechi Cymru a'n hymrwymiad i ddatgarboneiddio.

Dyma rai o'r ychwanegiadau newydd sy'n cyfoethogi ein casgliad:

Casgliad ffotograffig Thomas Sims, gyda chymorth y Gronfa Gelf a Friends of the Nations' Libraries

Yusuke Yamamoto, Dappled Garden (2017), gyda chymorth Ymddiriedolaeth Derek Williams a The Silver Society

Common Culture, Counter Culture II (2012), gyda chymorth Ymddiriedolaeth Derek Williams



Cefnogwch ni | Amgueddfa Cymru

SUPPORT US

Help us share the rich and diverse story of Wales with everyone.

As a charity, every donation, no matter the size, plays a crucial role in ensuring Amgueddfa Cymru belongs to all and remains open and welcoming to every community.

Alongside your generosity, we're grateful for significant support from the Welsh Government and other partners. This funding enables us to deliver ambitious projects, expand the nation's collection with important new acquisitions, and ensure our museums stay open, safe, and fit for purpose.

With continued support, we can carry out major initiatives like the transformational redevelopment of the National Slate Museum and our commitment to decarbonisation.

Here are some of the new additions enriching our collection:

Thomas Sims photographic collection, supported by Art Fund and Friends of the Nations' Libraries

Yusuke Yamamoto, Dappled Garden (2017), supported by the Derek Williams Trust and the Silver Society

Common Culture, Counter Culture II (2012), supported by the Derek Williams Trust



Support Us | Museum Wales



Y GREFFT O FRWYDRO THE ART OF BATTLING

"MA' BRWYDOR
YN DDIDDORO
FEL FFORDD O
PWY SY'N GA
PERSON NES
ED HOLDEN"



Bydd *Hip Hop: Stori Cymru* yn **Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd** yn dathlu datblygiad y genre a'r ffurf gelf yng Nghymru.

Hip Hop: A Welsh Story at **National Museum Cardiff** celebrates the evolution of the genre and artform in Wales.



Bydd ein Gŵyl Fwyd flynyddol yn **Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru** yn cynnig gwledd o weithgareddau addas i'r teulu, o arddangosiadau coginio a cherddoriaeth fyw i ddan-teithion blasus gan dros 80 o gynhyrchwyr gorau Cymru.

Our annual Food Festival at **St Fagans National Museum of History** serves up a feast of family-friendly activities, from live cookery demonstrations and music to tasty treats from over 80 of Wales' finest producers.

I DDOD CYN BO HIR... COMING SOON...

Mae blwyddyn lawn dop o'n blaenau, gyda rhywbeth at ddant pawb, o ddatliadau tymhorol fel Calan Gaeaf a'r Nadolig, i raglen amrywiol o ddigwyddiadau sy'n unigryw i bob un o'n hamgueddfeydd.

Ymhlith y rhain mae digwyddiadau Amgueddfa Dros Nos, Sgyrsiau yn yr Oriolau a Datganiadau ar yr Organ yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd; Teithiau Ysbryd a'r Wyl Fwyd yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru; Swperau Gardd GRAFT a Chyrsiau Cadw Gwenyn yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau; Cyflwyniad i Waith Gof yn Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru; Cyrsiau Lliwio Naturiol yn Amgueddfa Wlân Cymru; a Gweithgareddau Dementia Gyfeillgar a Bwtcamps Rhufeinig yn Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru. Wrth i ni fwrw ymlaen â'r project ailddatblygu mawr yn Amgueddfa Lechi Cymru, bydd ein menter Amgueddfa ar y Lôn yn cynnal digwyddiadau dros dro ac yn cynnig profiadau i gymunedau ledled y Gogledd.

Ymunwch â ni ar gyfer:

Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

Picture Post: Eicon o'r Ugeinfed Ganrif
Mai – Tachwedd 2025
Dyfal Droï y Garreg
Mehefin 2025 – Chwefror 2026
Hip Hop: Stori Cymru
Gorffennaf 2025 – Chwefror 2026
Artes Mundi 11
Hydref 2025 – Mawrth 2026
Gwen John: Hardd a Hynod
Chwefror – Mehefin 2026

Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru

Cymru ... amdani hi
Mehefin – Rhagfyr 2025
Cymru ... yw ein cartref
Tachwedd 2024 – Tachwedd 2025

Amgueddfa Genedlaethol y Glannau

Gwaith Merched
Mawrth – Rhagfyr 2025

There's a packed year ahead, with something for everyone to enjoy. From seasonal celebrations like Halloween and Christmas to a diverse programme of events unique to each of our museums.

These include Museum Sleepovers, Gallery Talks and Organ Recitals at National Museum Cardiff; Ghost Tours and the Food Festival at St Fagans National Museum of History; GRAFT Garden Suppers and Beekeeping Courses at National Waterfront Museum; Introduction to Blacksmithing at Big Pit National Coal Museum; Natural Dyeing Courses at National Wool Museum; and Dementia-Friendly Activities and Roman Bootcamps at National Roman Legion Museum. As we progress with the major redevelopment of the National Slate Museum, our Museum on the Move initiative will bring pop-up events and experiences to communities across north Wales.

Why not join us for:

National Museum Cardiff

Picture Post: A Twentieth Century Icon
May – November 2025
To Shift a Stone
June 2025 – February 2026
Hip Hop: A Welsh Story
July 2025 – February 2026
Artes Mundi 11
October 2025 – March 2026
Gwen John: Strange Beauties
February – June 2026

St Fagans National Museum of History

Wales is ... for her
June – December 2025
Wales is ... our home
November 2024 – November 2025

National Waterfront Museum

Gwaith Merched
March – December 2025



Gwnaethom gynnal wythnos o weithgareddau arbennig i ddweud *Hwyl Fawr* ... *Am y Tro wrth i Amgueddfa Lechi Cymru* gau am gyfnod cyffrous o ailddatblygu.

We held a week of special activities to bid *Farewell ... For Now* as the **National Slate Museum** closed for an exciting period of redevelopment.

Diolch o galon i bawb sydd wedi treulio amser gyda ni eleni – boed drwy ymweld â ni, ein cefnogi ni, neu gydweithio â ni.

Rydych chi wedi gwneud cyfraniad mawr at wneud eleni'n flwyddyn mor arbennig, gan ein helpu i greu achlysuron ystyrlon a gosod sylfaen gadarn ar gyfer popeth sydd i ddod.

Rydym eisoes yn edrych ymlaen at eich croesawu chi yn ôl. Ac os nad ydych chi wedi cael cyfle i ymwneud â ni neu gydweithio â ni eto, rydym yn edrych ymlaen yn fawr at newid hynny.

Ewch i'n gwefan i weld ein digwyddiadau a dechrau trefnu eich ymweliad nesaf – mae cymaint mwy i ddod.

Clawr blaen:

Gwnaethom groesawu ein preswlydd diweddaraf i **Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd** — replica 3D o famoth a grëwyd gan ddefnyddio esgyrn sy'n dyddio'n ôl 14,000–14,500 o flynyddoedd, pan oedd y cewri hyn yn crwydro Cymru.

© Motel Nights – Disgo Tawel, ffotograff gan Sin Hart.

A **heartfelt diolch o galon** to everyone who's spent time with us this year — whether by visiting, supporting, or working alongside us.

You've played a big part in making this year so special, helping us create meaningful moments and build a strong foundation for everything that lies ahead.

We're already looking forward to welcoming you back. And if you haven't had the chance to engage with us or work alongside us yet, we can't wait to change that.

Visit our website to discover what's on and start planning your next visit — there's so much more to come.

Front Cover:

We welcomed our newest resident to **National Museum Cardiff** — a 3D replica of a mammoth created using bones dating back 14,000–14,500 years, when these giants roamed Wales.

© Motel Nights – Silent Disco as photographed by Sin Hart.



Mae ein Llwybr Dôl sydd newydd agor yn **Amgueddfa Wlân Cymru** yn cynnig cyfle perffaith i ymwelwyr gysylltu â byd natur.

Our newly opened Meadow Trail at the **National Wool Museum** offers visitors the perfect chance to connect with nature.



Ymhlith y digwyddiadau ar thema Rufeinig yn **Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru** mae hyfforddi gladiatoriaid, lle y gall dysgwyr archwilio arfau, arfwisg a bywydau'r ymladdwyr mawreddog hyn.

Roman-themed events at the **National Roman Legion Museum** include gladiator training, where learners explore the weapons, armour and lives of these impressive warriors.

AMGUEDDFA CYMRU



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Rhif elusen: 525774
Charity number: 525774